Newyddion Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru Stena Line

Rhifyn 10 - Mawrth 2011

Newyddion Diweddaraf - Cadarnhau Dyddiadau a Rhaglen Gŵyl 2011

Bydd 24ain **Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru Stena Line** yn cynnwys datblygiad cyffrous. Oherwydd poblogrwydd cynyddol yr ŵyl a chefnogaeth barhaus Stena Line, mae wedi datblygu y tu hwnt i fod yn ddigwyddiad un diwrnod i fod yn ŵyl 2 ddiwrnod, a gynhelir ar 5 a 6 Tachwedd 2011.

Bydd yn cael ei gynnal unwaith eto yn Venue Cymru, Llandudno, ac mae'r trefnwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi llunio rhaglen a fydd yn caniatáu i'r corau i gyd gystadlu a rhoi cyfle iddynt brynu tocynnau'n rhatach ar gyfer cyngerdd gydag artistiaid gwadd.

Mae'r gwobrau yn cynnwys £100 ar gyfer y drydedd wobr, £200 ar gyfer yr ail wobr a £500 ar gyfer y wobr gyntaf ac mae'r Cyngerdd Enillwyr Gyda'r Nos wedi'i ddisodli gan gategori agored fydd yn caniatáu i gorau o unrhyw gategori gystadlu am wobr o £500. Dyma amlinelliad o'r rhaglen (bydd yr union amser yn dibynnu ar y niferoedd fydd yn cystadlu ym mhob dosbarth).

Dydd Sadwrn 5 Tachwedd
10am Ieuenctid
12pm Cymysg
2pm Merched
4pm Meibion
8pm Cyngerdd Arbennig

Dydd Sul 6 Tachwedd
12pm Barbershop
2pm Agored

Os nad ydych wedi cystadlu o'r blaen byddwch wedi'ch synnu o weld nifer y corau Gwyddelig, Saesneg, Cymraeg ac Albanaidd sy'n heidio i Landudno i gystadlu yn yr ŵyl enwog hon. Yn 2010, cystadlodd y côr rhyngwladol cyntaf, Askersunds Manskor o Sweden, a cafwyd ymholiadau o bob rhan o Ewrop ar gyfer y digwyddiad eleni. Y llynedd gwelwyd yr adran Côr Meibion mwyaf yn hanes y gystadleuaeth gyda 9 côr yn cystadlu.

Bydd arddangosfa dân gwyllt flynyddol Cyngor Tref Llandudno hefyd yn cael ei chynnal ar y penwythnos hwn ym mis Tachwedd gan oleuo'r bae mewn modd ysblennydd o'r pier, a denu cynulleidfaoedd i'r dref. Bydd y digwyddiad hwn yn ddechrau am 7.30pm ac yn para o leiaf 20 munud gan orffen erbyn y sioe gyda'r nos am 8pm (perfformwyr i'w cadarnhau). Mae bwyty Venue Cymru yn llecyn perffaith i wylio'r tân gwyllt ac mae'n darparu bwydlen arbennig ar gyfer y noson mewn amgylchedd cynnes i ymlacio ynddo.

I gael rhagor o wybodaeth am yr arddangosfa tân gwyllt ffoniwch Cyngor Tref Llandudno ar 01492 879130. I gael rhagor o wybodaeth am Venue Cymru, ffoniwch 01492 879771 neu ewch i **www.venuecymru.co.uk**.

Gyda £4,500 i'w rannu ymysg enillwyr y dosbarthiadau, mae ymweld â Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru Stena Line yn hanfodol i unrhyw gôr ac mae'n gyfle i'r rhai sy'n dod iddi i wneud penwythnos ohoni trwy fwynhau mwy o'r hyn sydd ar gael yn y dref Fictoraidd hon sydd heb ei difetha. Dilynwch y newyddion diweddaraf trwy fynd i **www.gwylgorawlgogleddcymru.co.uk** neu ffoniwch **01492 575943/8** i gael gwybod mwy.

Gallwch gofrestru rŵan a bydd tocynnau ar werth yn fuan - byddwch yn barod!

Conwy County Borough Council

Stena Line